# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Mawrth 2020

Amser: 13.04 - 16.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5886

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Delyth Jewell AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Alan Brace, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Nick Selwyn<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW): y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru (27 Chwefror 2020)

### 2.2 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Adran 106 - Sylwadau gan Mark Harris, Cynghorydd Cynllunio a Pholisi Cymru, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (27 Chwefror 2020)

## 3 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Aelodau'n holi Andrew Slade, John Howells a Neil Hemington fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru.

3.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon copïau o ganllawiau Cymorth Cynllunio Cymru at y Pwyllgor.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth y tystion y byddai'n ysgrifennu atynt gan ofyn y cwestiynau na chafodd eu gofyn yn ystod y cyfarfod.

## 4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

4.1 Holodd yr Aelodau Dr Andrew Goodall ac Alan Brace fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

4.2 Cytunodd Dr Goodall i anfon nodyn yn cynnwys enghreifftiau o fentrau a phrosiectau sy'n helpu i reoli’r broses o leoli staff asiantaeth, a hynny fel rhan o weithgarwch ehangach ar gynllunio'r gweithlu.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a'r prif faterion

6.1 Gan fod amser yn brin, gohiriwyd yr eitem hon i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.

## 7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Gan fod amser yn brin, gohiriwyd yr eitem hon i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.